

Ry'n ni wedi cadw ffeiliau a elwir yn cwcis ar eich dyfais. Mae'r cwcis hyn:

- yn hanfodol i'r safle weithio

Byddem hefyd yn hoffi cadw rhai cwcis i'n helpu ni:

- i wella'n gwefan drwy gasglu ac adrodd gwybodaeth ar sut yr ydych yn defnyddio'r safle
- i deilwra cyfathrebu

Derbyn cwcis

Newid gosodiadau cwcis



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

English



» [Dilynwch y cyngor ar gyfer y coronafeirws \(COVID-19\)](#)

[Hafan](#) > [Hysbysiadau](#) > [Holl hysbysiadau](#) >

Datganiad Ysgrifenedig: System Genedlaethol ar gyfer Categori Ysgolion 2020/21

DATGANIAD CABINET

# Datganiad Ysgrifenedig: System Genedlaethol ar gyfer Categori Ysgolion 2020/21

Kirsty Williams AS, y Gweinidog Addysg

Cyhoeddwyd gyntaf: 6 Gorffennaf 2020

Diweddarwyd ddiwethaf: 6 Gorffennaf 2020

Heddiw, rwy'n cyhoeddi imi benderfynu atal y System Genedlaethol ar gyfer Categori Ysgolion ar gyfer blwyddyn academaidd 2020/21 am gyfnod dros dro, oherwydd pandemig Covid-19. Mae hynny'n golygu na fydd ysgolion yn cael eu hasesu na'u rhoi mewn categori cymorth lliw ar gyfer y flwyddyn academaidd nesaf, ac ni fydd unrhyw gategori cymorth yn cael eu cyhoeddi ar wefan Fy Ysgol Leol ym mis Ionawr 2021.

Rhannu'r dudalen hon: [Twitter](#) [Facebook](#) [Email](#)

Mae hyn yn llunio rhan o'n hymateb ehangach i'r pandemig, ac yn adlewyrchu'r ymrwymiad a wnes i helpu i leihau'r baich ar yr ysgolion ac ar y system, drwy ddileu neu lacio gofynion pan fo'n bosibl i wneud hynny. Rwy eisoes wedi llacio'r gofynion am gyfnod dros do ar gyfer cynnal profion ac asesiadau cenedlaethol ac adrodd am y deilliannau, gan gynnwys cynnal gwaith cymedroli. Hefyd, mae'r holl gasgliadau data statudol nad oedd wedi dechrau a oedd i fod i gael eu casglu cyn gwyliau haf yr ysgolionm wedi'u canslo. Ac mae'r trefniadau arferol ar gyfer adrodd am fesurau perfformiad Cyfnod Allweddol 4 ac ôl-16 wedi'u hatal ar gyfer y flwyddyn hon. Mae Estyn wedi rhoi terfyn ar eu trefniadau arolygu am gyfnod amhenodol hefyd. Ar y cyd, bydd y camau hyn yn helpu i roi sicrwydd i'r ysgolion ynghylch y trefniadau ar hyn o bryd a'r rhai ar gyfer yr hydref. Byddant hefyd yn helpu i roi mwy o gyfle i'r ysgolion sicrhau eu bod mewn sefyllfa dda i gefnogi dysgwyr wrth inni symud i'r cam nesaf.

Mae sicrhau bod yr ysgolion yn cael eu cefnogi mewn modd effeithiol a thrylwyr yn holl bwysig. Rydym yn cydweithio'n agos â'n partneriaid strategol i gynllunio sut y byddwn yn gwneud hynny, fel sydd wedi'i amlinellu yn ein **Fframwaith penderfyniadau ar gyfer y cam nesaf i addysg a gofal plant.**

**Cyhoeddwyd gyntaf**

6 Gorffennaf 2020

**Diweddarwyd ddiwethaf**

6 Gorffennaf 2020

[Adrodd am unrhyw beth sy'n bod gyda'r dudalen hon](#)

[Rhannu'r dudalen hon](#)

[Nôl i dop y dudalen](#)

[Cysylltu â ni](#) [Hygyrchedd](#) [Datganiad hawlfraint](#) [Cwcis](#) [Preifatrwydd](#) [Telerau ac amodau](#)



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government